**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 14eg Medi 2023 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Tina Jones, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc: Denfer Morgan

**124 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Eirlys James-Evans ac Arwel Jones am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**125 Datgelu Buddiannau**

Datgelodd y Cynghorydd Iwan Thomas buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A230549 y cyfeirir ato yng nghofnod 128b) isod gan adael y Neuadd pan y drafodwyd y mater.

**126 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Gorffennaf 2023 yn amodol ar gywiro'r cyfeiriad at 'Penrallt' i 'Tanrallt' yng nghofnod 123.

**127 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD:**

a) talu'r canlynol:

Tanysgrifiad Un Llais Cymru 2023-24 - £163
Stad y Goron - £50
*Cyflog y Clerc (Gorff-Awst-Medi):*
Denfer Morgan - £328.90
CThEF (TWE) - £82.22

b) nodi derbyn ail daliad y Praesept yn y swm o £2,000.

**128 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r tri cais canlynol a chymerwyd y penderfyniadau fel a nodir:

*a)* A230478 - Neuaddlwyd Uchaf, Ciliau Aeron. *Proposed change of use of land for the siting of touring caravan site, facilities building & package treatment plant.*

**Penderfyniad:** Nodwyd fod Adran Briffyrdd y Cyngor Sir wedi gwrthwynabu'r cais ac o'r herwydd, disgwylid iddo gael ei wrthod.

*b)* A230549 - Commercial Inn, Cilcennin. *Change of use to provide two additional flats within the adjacent former shop (providing a total of 4 units of accommodation - 2 existing and 2 new); also internal alterations and minor external alterations.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

*c)* A230600 - Tynrhos, Cilcennin. *Use of outbuilding as holiday let (Retrospective)*

**Penderfyniad:** Tynnu sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol at sylwadau'r Cyngor ar gais cynllunio blaenorol A220542.

**129 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Nodwyd fod yr Ardal Gweinidogaeth Leol wedi hysbysu Awdurdodau'r Eglwys yng Nghymru fod yr Eglwys yn lleol a Chapel Cilcennin wedi cytuno cyfrannu £2,000 yr un tuag at y gost o brynu'r tir ar gyfer ymestyn y fynwent. Nodwyd taw £4,000 oedd gwerthusiad gwreiddiol yr Eglwys a chytunwyd tynnu sylw hwn.

**PENDERFYNWYD**

i) cofnodi gwerthfawrogiad a diolch y Cyngor am y cyfraniadau; a
ii) bwrw mlaen i baratoi a chyflwyno cais cynllunio ar gyfer y Cynllun.

**130 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Rhoddwyd ystyriaeth manwl i'r sefyllfa presennol. Dywedwyd fod yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Clive Davies, yn dweud fod cynllun lleol yn cael ei ystyried ar gyfer adeilad Ysgol y Ferwig a'i fod yn mynd i holi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol i gytuno fod y Pwyllgor hwnnw yn ymchwilio i'r broses o ddelio gydag adeiladau gwag.

Yn dilyn trafodaeth, nodwyd hwn, ond gofynwyd hefyd i'r Clerc gysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio er mwyn cael eglurhâd o'r sefyllfa presennol.

**131 Llwybrau Cyhoeddus**

**PENDERFYNWYD** cynnig y dyddiadau 26, 27 a 28 Medi ar gyfer cyfarfod gyda'r warden llwybrau.

**132 Unrhyw Fater Arall**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

Atgoffa'r Cyngor Sir fod y Cyngor yn aros am ateb yn dilyn tynnu eu sylw at gyflwr y ffordd ger Tan-yr-allt yng Nghiliau Aeron.

Cytunwyd cael gafael ar offer er mwyn trefnu sesiwn codi sbwriel.

Dywedodd y Cynghorydd Michelle Davies ei bod wedi cwrdd gyda PCSO Charlotte Carter a chynrychiolydd GoSafe mewn perthynas â threfnu ymarferiad Speedwatch yng Nghilcennin a chytunwyd taw'r safle gorau ar ei gyfer oedd o flaen 'Morawel'.  Cytunwyd bwrw mlaen gyda'r ymarferiad, gofyn am ganiatad perchnogion Morawel am eu caniatad ac i ddod o hyd i wyth o bobl i gael eu hyfforddi ar ei gyfer, gyda tri yn cymryd rhan bob tro.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Marc Davies at drafferthion gyda chontractau gwasanaeth bysus ysgolion ar hyn o bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50pm